

ADDYSG



PAM MAE'N BWYSIG

Mae addysg yn hanfodol i wneud cynnydd cadarnhaol. Pobl ifanc yw'r dyfodol, a dylai ein polisïau adlewyrchu hynny drwy ddangos eu pwysigrwydd i gymdeithas a diogelu eu hawl i ddysgu. Gall profiad addysgol cadarnhaol, heb gyfyngiadau ariannol, sefydliadol na daearyddol ar gyfleoedd, fod yn allweddol i chwalu'r rhwystrau y bydd pobl ifanc yn eu hwynebu yn ddiweddarach mewn bywyd.

Mae'n bwysig nodi nad strwythur ffurfiol yn unig yw addysg; gall fod ar sawl ffurf ac mewn unrhyw le y mae person ifanc yn ei ystyried yn 'fan diogel'. Mae'r gwersi a ddysgir drwy addysg anffurfiol yn hollbwysig i ddatblygiad personol a chymdeithasol, yn ogystal â'r sgiliau bywyd gwerthfawr a ddysgir o brofiad bywyd.

Y MATERION

Nid yw addysg ffurfiol yn addas i'r byd modern ar hyn o bryd

Mae'r cwricwlwm wedi dyddio. Rhaid i addysg ffurfiol ddatblygu'n barhaus er mwyn ymateb i ddatblygiad pobl ifanc mewn byd sy'n newid o hyd. Ar draws y gwledydd a gynrychiolir yn y fforwm hwn, canfuwyd bod y system addysg ffurfiol yn rhy gyfyngol i ddiwallu anghenion cymdeithasol pobl ifanc heddiw.

Ni ddylai addysg ddod â beichiau ariannol

Wrth i'r argyfwng costau byw gynyddu cost eitemau bob dydd, mae hefyd wedi cynyddu cost uchel gwisgoeddd ysgol, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd. Er bod cynlluniau fel Prydau Ysgol am Ddim a Grantiau Gwisg Ysgol yn bodoli i leddfu'r baich ariannol, nid yw pawb sydd angen cymorth yn ei gael, gan fod y cymorth yn dibynnu ar brawf modd.

Mae hygyrchedd yn rhan o degwch

Gall anghenion ychwanegol pobl ifanc â chyflyrau meddygol neu Anghenion Addysgol Arbennig rwystro eu gallu i fynychu ysgol, cymryd rhan ac elwa ar addysg.

Gall rhwystrau corfforol megis diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, technoleg a mynediad i'r rhyngwrwd annibynadwy, a champysau anhygyrch atal llwyddiant addysgol.

Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo pwysau i gyflawni'n uchel mewn lleoliadau addysg ffurfiol. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl, ac nid oes digon o gymorth ar gael i ddiogelu eu llesiant.

BETH DYWEDODD POBL IFANC?

“Nid yw breuddwydion pobl yn llai pwysig dim ond am eu bod yn wahanol.”

“Nid addysg ffurfiol yw'r llwybr i bawb.”

“Rydym yn cael ein gadael heb baratoi ar gyfer bywyd ar ôl addysg.”

“Pan fydd plant yn mynd i'r ysgol yn llwglyd, ni allant ganolbwyntio.”

“Mae hygyrchedd yn allweddol.”

“Dewch â phobl ifanc i mewn i gyrff gwneud penderfyniadau mewn ysgolion.”

BETH RYDYM AM I'R RHAI SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD

Rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau roi'r gorau i godi ofn ar bobl ifanc drwy awgrymu mai addysg ffurfiol yw'r unig lwybr at ddyfodol llwyddiannus. Nid gwybodaeth yn unig sy'n cael ei hennill mewn addysg; dylid pwysleisio datblygu sgiliau bywyd a gwaith sy'n paratoi person ifanc ar gyfer ei ddyfodol.

Gall llwybrau anffurfiol, megis gwaith ieuentid a phrosiectau cymdeithasol, helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau angenrheidiol i ddechrau gweithio neu i ddod o hyd i gymorth sy'n addas iddynt. Rydym am i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gydnabod llwyddiant gwahanol lwybrau bywyd a helpu i ddarparu mwy o gyfleoedd, gan hyrwyddo'r rhai sydd eisoes ar gael.

Gall hygyrchedd fod ar sawl ffurf, gan gynnwys:

Gall rampiau, lifftiau, toiledau hygyrch a drysau llydan helpu pobl ag anableddau corfforol i gael mynediad at addysg heb gyfyngu ar ddefnydd o gymhorthion symudedd.

Bydd trafnidiaeth a chymorth digidol sydd ar gael yn helpu pobl o ardaloedd gwledig.

Bydd mannau diogel a chynlluniau cymorth wedi'u teilwra yn helpu disgyblion ag anghenion addysgol arbennig.

CYNLLUN GWEITHREDU

Gall camau bach wneud gwahaniaeth mawr

Cymorth ariannol wedi'i dargedu

Byddai cymorth ariannol wedi'i dargedu o fudd i bob disgybl, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd o statws economaidd-gymdeithasol isel. Rydym yn awgrymu datblygu cynlluniau i ddarparu deunyddiau celf, offer a chynhwysion Economeg y Cartref ac offer chwaraeon er mwyn lleihau'r baich ariannol ar deuluoedd.

Dysgu o gynlluniau presennol a'u datblygu

Cynllun arall yr hoffem ei weld yn cael ei ddatblygu ar draws y gwledydd, ac sydd eisoes yn llwyddiannus iawn mewn rhai ardaloedd, yw Prydau Ysgol am Ddim i bob disgybl, gyda darpariaeth hefyd yn ystod gwyliau'r ysgol.

Cryfhau lleisiau pobl ifanc

Sefydliad sydd wedi'i anelu'n bennaf at blant a phobl ifanc yw addysg ffurfiol. Felly, credwn ei bod yn hanfodol bod lleisiau pobl ifanc wrth wraidd penderfyniadau allweddol. Credwn y dylid ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol, a'i hannog, i wahodd disgyblion i'w chyrff gwneud penderfyniadau ac i annog meddwl annibynnol a datblygu'r sgiliau cysylltiedig.